# Mesur a dadansoddi perfformiad buddsoddiadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â mesur a dadansoddi perfformiad buddsoddiadau. Mae'n cwmpasu casglu gwybodaeth am berfformiad, ynghyd â dadansoddi a chyflwyno'r wybodaeth honno. Cesglir gwybodaeth am berfformiad buddsoddiadau, er enghraifft, o symudiadau prisiau a thueddiadau'r farchnad, y mae modd eu dadansoddi wedyn yn erbyn amcanion y gronfa neu'r cyfrif. Mae angen cyfleu canlyniadau'r dadansoddiad hwn, mewn fformat cyflwyno derbyniol, i reolwyr cronfeydd, rheolwyr buddsoddi ac ati.  Bydd angen i chi ddefnyddio gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac yn foesegol, gan roi sylw i fanylion sy'n hanfodol i'ch gwaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Casglu a dadansoddi gwybodaeth ynghylch perfformiad cronfeydd neu gyfrifon, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
2. Mesur perfformiad yn erbyn amcanion a meini prawf eraill dilys, gan ddefnyddio profion derbyniol
3. Cymharu a chyferbynnu perfformiad gwirioneddol a phosibl cronfeydd neu gyfrifon
4. Gwirio bod gwybodaeth ynghylch perfformiad cronfeydd neu gyfrifon yn gyflawn, yn gywir ac yn cael ei chyflwyno'n unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Adrodd canlyniadau yn y fformat gofynnol i'r bobl briodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Cyflwyno dadansoddiad o berfformiad, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad. Gwirio bod canlyniadau mesur perfformiad yn arwydd o berfformiad i'r dyfodol ac argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol
7. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, gan gynnwys safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Strwythur y farchnad fuddsoddi ac effaith tueddiadau'r farchnad ar berfformiad cronfeydd neu gyfrifon
2. Ffynonellau allweddol o wybodaeth ddibynadwy a pherthnasol mewn perthynas â pherfformiad cronfeydd neu gyfrifon
3. Defnydd o fodelau ystadegol i ddadansoddi gwybodaeth am berfformiad cronfeydd neu gyfrifon
4. Gofynion rheoliadol o ran union berfformiad cronfeydd a rhagfynegi perfformiad cronfeydd
5. Defnydd o systemau priodol ar gyfer mesur perfformiad cronfeydd neu gyfrifon oddi mewn i'ch sefydliad eich hun
6. Amcanion cyffredinol cronfeydd neu gyfrifon yr ydych chi'n ymwneud â nhw
7. Cydweithwyr sy'n berthnasol i'r gwaith sy'n cael ei wneud, eu rolau gwaith, a'u cyfrifoldebau
8. Sut mae sefydlu a chynnal perthnasoedd effeithiol gyda chleientiaid, gan gynnwys defnyddio sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu a chysyniadau darparu gwasanaeth o ansawdd
9. Ffynonellau data ar gyfer perfformiad cronfeydd neu gyfrifon, gan gynnwys perfformiad cystadleuwyr
10. Sut mae gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol, gan gynnwys safonau moesegol, yn effeithio ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn sylwi ar newid amgylchiadau'n brydlon ac yn cymryd hynny i ystyriaeth yn eich gwaith
2. Rydych yn cyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gryno

FSPIO06

Mesur a dadansoddi perfformiad buddsoddiadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPIO06 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Buddsoddi |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithrediadau Buddsoddi; gweinyddiaeth buddsoddiadau; y farchnad fuddsoddi; data buddsoddiadau; data'r farchnad; buddsoddiadau; perfformiad buddsoddiadau; perfformiad y farchnad; asedau; cwmni buddsoddi; rheoli cronfeydd; gwasanaethau ariannol; daliadau ariannol; cydymffurfio; buddsoddwyr |